## Gwasanaethau Symudol ac Allgymorth Cricieth

Gwnaethom ofyn eich barn ynghylch rhai materion allweddol mewn perthynas â newidiadau i'r gwasanaethau Symudol ac Allgymorth sy'n cael ei rhedeg gan bostfeistr Swyddfa Bost Cricieth.

Rydym wedi gwneud newidiadau i oriau agor y gwasanaethau Allgymorth ym Morfa Bychan; Sarn; Chwilog; Talsarnau; Llanfair a Llanbedr.

Daeth y gwasanaeth Allgymorth yng Nghanolfan Gymunedol Tal-y-sarn, Ffordd yr Orsaf, Tal-y-sarn, Caernarfon, LL54 6HL, i ben o ddydd Iau 17 Awst 2023. Rydym wedi cyflwyno gwasanaeth Symudol arall sy'n cael ei redeg o'r maes parcio yn yr un lleoliad yng Nghanolfan Gymunedol Tal-y-sarn. Dechreuodd y gwasanaeth hwn o ddydd Mercher 23 Awst 2023, gydag oriau agor newydd, sef bob dydd Mercher rhwng 13:45 a 14:30.

Mae Gwasanaeth Symudol Llithfaen bellach ar gael mewn lleoliad newydd, sef wrth ymyl y ffordd y drws nesaf i Dafarn y Fic. Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA.

Daeth y gwasanaeth Symudol yn Llanllyfni a'r gwasanaeth Allgymorth ym Morfa Nefyn i ben o ddydd Llun 21 Awst 2023, am fod cyn lleied o gwsmeriaid yn eu defnyddio.

Ni ddigwyddodd y newidiadau a fwriadwyd ar gyfer Efailnewydd; Bryncir; Llanaelhaearn; Pant-glas; Clynnog Fawr; Heol Aber-erch; Minffordd; Borth-y-gest; Nasareth: Garndolbenmaen; Y Fron; Rhosgadfan; Llangybi; Gellilydan; Ffestiniog; Llanfrothen; Llanystumdwy; Carmel ac Edern. Ymddiheuriadau am unrhyw ddryswch i'n cwsmeriaid.

Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r gwasanaethau Allgymorth a Symudol yn cael eu gwneud yn unol â'r Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned y ceir darn o'r ddogfen ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaethau drwy'r amser, a phe ceid cynnydd sylweddol yn y defnydd o wasanaeth, byddem yn ystyried newid yr oriau agor yn unol â hynny.

Hoffem ddiolch i chi am fod yn amyneddgar.

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

